

Atebion

Beth? Ble? Pam?

3. Trafodwch y cwestiynau hyn:

a. Sleid 1: **Ym mha wlad mae'r ffôn yma, tybed?**

Mae'r ffôn yn Nigeria. Mae llawer o wastraff electronig y gorllewin, gan gynnwys ffonau symudol, yn cael ei gymryd i Orllewin Affrica ac i'r wlad hon.

b. Sleid 2: **Ble, yn eich barn chi, mae'r bachgen?**

Mae'r bachgen mewn tomen gwastraff yn Nigeria.

c. Sleid 2: **Beth mae'r bachgen yn ei wneud a pham mae'n gwneud hyn?**

Mae'n chwilio drwy wastraff electronig y gorllewin er mwyn gweld oes rhywbeth yno y gall ei gymryd a'i werthu.

ch. Sleid 3: **Ble, yn eich barn chi, mae'r gwragedd hyn?**

Mae'r gwragedd mewn canolfan ailgylchu yn Hamburg, yr Almaen.

d. Sleid 3: **Beth maen nhw'n ei wneud a pham maen nhw'n gwneud hyn?**

Maen nhw'n gweithio i gwmni ailgylchu yn didoli gwastraff electronig, gan gynnwys ffonau symudol. Beth peth o'r gwastraff yn cael ei ailgylchu.

dd. Sleid 4: **Ble, yn eich barn chi, mae'r biniau hyn?**

Maen nhw yng Nghymru – mae'r labeli'n ddwyieithog.

e. Sleid 5: **Ble, yn eich barn chi, mae'r ddynes?**

Mae hi mewn pentref traddodiadol yn Affrica.

f. Sleid 5: **Sut mae'r ddynes yn teimlo, tybed, a pham?**

Mae hi'n ymddangos yn hapus. Mae'n debygol ei bod yn defnyddio ffôn sydd wedi ei ailgylchu. Efallai ei bod hi'n siarad ag aelodau o'r teulu, neu o bosib yn trafod gwaith, e.e. gallai fod yn trefnu i brynu nwyddau i'w gwerthu ymlaen i bobl eraill.

4. Gwaredu gwastraff electronig / ffonau symudol yw thema'r sleidiau hyn.